

## Codi Llais

Mae hwn yn ddatganiad ar y cyd i'w rannu â darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol oddi wrth:

- Gillian Baranski, Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru
- Alun Jones, Prif Weithredwr Dros Dro Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Rydym ynghanol argyfwng iechyd na welwyd ei debyg o'r blaen a hoffem ddiolch i staff iechyd a gofal ledled Cymru am eu hymroddiad, eu gofal a'u gwaith caled wrth ymateb i'r heriau lu sy'n eu hwynebu nhw a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Gwyddom fod hwn yn gyfnod anodd a llawn straen i bawb, a bydd gan lawer ohonoch bryderon ynglŷn â'r risgiau cynyddol o niwed anfwriadol i chi, eich teuluoedd, eich cydweithwyr a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

O ystyried faint roedd angen newid gwasanaethau er mwyn ymateb i'r pandemig, a pha mor gyflym yr oedd angen gwneud hynny, erys diogelwch, yn fwy nag erioed, yn flaenoriaeth i'r system gyfan. Bydd angen i bawb sydd â rol yn y gwaith o roi gofal fod yn fwy gwyliadwrus er mwyn i ni allu lleihau'r risg o niwed y gellir ei osgoi i bobl. Gallwch wneud hyn drwy ddilyn systemau diogelwch, canllawiau ac argymhellion sy'n sicrhau y caiff gofal cywir ei roi, yn ôl y bwriad, bob tro, a thrwy barhau i roi gwybod am achosion sy'n ymwneud â diogelwch a phryderon yn lleol, gan arfer eich barn broffesiynol a chlinigol. Mae angen i ni barhau i ddysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda yn ogystal â'r hyn nad yw'n gweithio.

Gall pob arweinydd gwasanaeth iechyd a gofal gefnogi hyn drwy annog diwylliant cefnogol lle y gall pobl godi llais am risgiau a chanlyniadau niweidiol, heb ofn bai na goblygiadau. Yn bwysig ddigon, rydym am annog gweithwyr i godi unrhyw beth sy'n eu rhwystro rhag rhoi gofal da er mwyn atal y niwed posibl hwnnw.

Mae llawer o ffyrdd o godi llais. Dylech barhau i roi gwybod am unrhyw beth sy'n eich pryderu; gellir gwneud hyn drwy brosesau rheoli risg lleol, drwy drafodaeth â'ch rheolwr llinell, drwy awgymru gwelliant, neu drwy dynnu mater at sylw rheoleiddiwr.

Mae codi llais yn elfen hanfodol o ddiwylliant diogel a dylai fod yn rhan o 'fusnes fel arfer' i bawb sy'n gweithio ym maes gofal, ni waeth beth fo'u rôl.

### **Sut i gysylltu â ni**

#### **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

- Sut i godi pryder <https://arolygiaethgofal.cymru/cysylltwch-ni/codi-pryder>
- Chwythu'r-chwiban <https://arolygiaethgofal.cymru/cysylltwch-ni/chwythur-chwiban>
- E-bost [agc@llyw.cymru](mailto:agc@llyw.cymru)
- Ffôn 0300 7900 126

#### **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)**

- Darparu adborth am wasanaeth gofal iechyd <https://agic.org.uk/darparu-adborth-am-wasanaeth-gofal-iechyd>
- Chwythu'r-chwiban <https://agic.org.uk/chwythur-chwiban>
- Ebost [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)
- Ffôn 0300 062 8163